Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

RHIF 44 Tanysgrifiad £3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd AWST'91

**PRIS £1**

**FE A nifer o gopïau o'r rhifyn hwn, trwy drefniant gyda'r Cyngor Llyfrau i'w gwerthu ar stondinau'r siopau. Golyga hyn ein bod yn cyfarch a chroesawu darllenwyr newydd a phurion felly yw egluro'r drefn i'r rheini. Trwy danysgrifiadau y dosberthir *Y Casglwr* yn gyffredinol. Tri rhifyn bob blwyddyn — ym mis Mawrth, o flaen y Brifwyl ac o flaen y Nadolig. Trwy ymuno â Chymdeithas Bob Owen fe gewch y tri rhifyn o'r *Casglwr* trwy'r post am eich tanysgrifiad blynyddol o dair punt, taledig i Richard H. Lewis yr Ysgrifennydd, y cewch ei gyfeiriad ar yr ail ddalen (yn y siop — punt y copi). Yn y Brifwyl bydd stondin *Y Casglwr* fel arfer ym mhabell siop llyfrau YR HEN BOST (Blaenau Ffestiniog). Croeso ichi yno — croeso mwy os mai dod yno i dalu y byddwch chi. A chofiwch am ddarlith y Gymdeithas yn y Babell Lên fore Gwener.**

## Ymchwiliad DEWI WILLIAMS o'r diwedd yn

# Datrys dirgelwch Men Eifion Wyn

YN RHIFYN Awst 1987 o'r *Casglwr* awgrymais nad Annie Williams, priod Eifion Wyn, oedd gwrthrych y telynegion i Men ac mai hysbys ydoedd i drigolion hynaf Porthmadog mai M.E.N. oedd y fun a enillodd galon y bardd gyntaf.

Mrs Myfanwy Morris, awdurdod ar hanes Porthmadog a'm goleuodd ynglŷn â'r mater yma ac mewn darlith i ddosbarth WEA y dref rhyw ddwy flynedd yn ôl datgelwyd enw a hanes Men ganddi.

Saif y llythrennau am Mary Elizabeth Newell, merch i Thomas a Mary Newell, perchnogion y siop fara a theisennau yn 91, Stryd Fawr yr adeg hynny, busnes sydd yn dal i weithredu dan yr un enw.

Hanai Thoms Newell o Sir Drefaldwyn, o linach Richard Newell, Aberhafesp, un o sylfaenwyr Methodistiaeth y Sir. Yr oedd cefnder i Thomas o'r enw Richard Newell yn gigydd ym Mhorthmadog ac erys y siop ym meddiant ei ddisgynnydd.

Addysgwyd Mary Elizabeth yn breifat ond nid ym Mhorthmadog fe dybiwn. Aeth i ysgol Miss Richards Castle House ac yna bu mewn sefydliad o'r enw Plas Menai lle'i hyfforddwyd hi mewn Ffrangeg, Cerddoriaeth a Chelfyddyd yn unol â'r patrwm a sefydlwyd ar gyfer merched ieuanc o gefndir cyffelyb.

Yn 1907 fe briododd gyda'r Parchedig William Roberts, gweinidog gyda'r Annibynwyr a fu yn gofalu am eglwys Trinity Road yn Bootle hyd 1928 ac yna eglwys Salem yn Hirael, Bangor hyd ei ymddeoliad. Ganwyd un mab iddynt, sef Gwilym Newell Roberts a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn offeiriad yn Ne Lloegr.

* * * *

DERBYNIWYD Mary Newell i'r Orsedd yn eisteddfod Caergybi 1927 ac fe'i hurddwyd fel Mair Gwynedd. Cyflwynwyd yr anrhydedd iddi am ei chynnyrch llenyddol. Cyfansoddodd nifer o ddramâu a llwyfanwyd rhai ohonynt, yn ôl ei honiad, trwy Gymru benbaladr.



*Mary Elizabeth Newell yw'r enw ond noder eu tair llythyren gyntaf.*

Dim ond un ohonynt, 'Alun y Meddyg' (1924) a ddarllenais ond tybiaf ei bod yn nodweddiadol o'r gweddill. Y thema gyfarwydd yw dyrchafiad llencyn o werinwr distadl yn feddyg o ganlyniad i'w ymlyniad trylwyr i'w astudiaeth, a'i garwriaeth ar yr un pryd yn llwyddo i oresgyn y camddealltwriaeth disgwyliadwy. Clogyrnaidd yw'r ddeialog a brithir hi gan ymadrodddion Seisnig.

Nid yw'r ddrama yn adlewyrchu chwaeth a safon y cyfnod yn ffafriol ac o'i darllen gwerthfawrogir y cynnydd a fu ers yr adeg honno.

Yn 1987 cynigiais yn dalog fod y delyneg *Dan dy Lewyrch Leuad Ieuanc* yn portreadu marwolaeth symbolaidd M.E.N., y tair llythyren a welir ar y garreg, oherwydd diwedd y garwriaeth.

Ni allaf fod mor sicr erbyn hyn. Cyhoeddwyd y gerdd am y tro cyntaf yn *Cymru* 1894 a hi yw'r unig delyneg o'r gyfres i Men a gynhwyswyd yn *Telynegion Maes a Môr* 1906 a ymddangosodd yn y cylchgrawn.

Y dystiolaeth fwyaf pendant sydd ar gael o'r garwriaeth rhwng Eifion Wyn a Mary Newell yw'r cerdyn a ddyluniodd ac a yrrodd iddi ym mis Ionawr 1903, ar ryw achlysur arbennig mae'n debyg. Y mae'r gwreiddiol ym meddiant Gwen Roberts, ei hwyres, ac yr wyf yn ddiolchgar iddi am gael benthyg lluniau o'i nain er mwyn eu hatgynhyrchu.

Eto yn rhifyn Ionawr 1903 o'r *Cymru* cyhoeddwyd y ddwy gerdd ganlynol gan M.E.N. ac oherwydd y cyfeiriad at Alun fel eu gwrthrych, nid oes amheuaeth nad Mary Newell a'u cyfansoddodd. Dyma'r unig enghraifft o'i dawn farddonol a ganfûm hyd yma.

*Hoffter*

*Beth yw cyfoeth heb ddim serch,*
*Pan yw mab yn ceisio merch?*
*Hoff wyt ti, fy Alun glân,*
*Heb ddim cyfoeth ond dy gân;*
*Yn fy ngolwg tlws dy wefus,*
*Mae dy gusan di mor felus.*

*Alun, paid a'm gadael mwy,*
*Gwyddost fod fy serch yn glwy;*
*Hiraeth sy arnaf hyd yn awr,*
*Am dy wyneb gyda'r wawr:*
*Hoffwn aros yn dy fynwes,*
*Mae dy galon di mor gynnes.*

*Hiraeth*

*Pam mae dolur tan fy mron,*
*A pham na chwsg y galon hon?*
*Ni welais heno f'Alun glân,*
*Ac ni fu neithiwr wrth y tân;*
*Mae pawb a'i gymar, meddant hwy,*
*Ond ni chaf fi fy Alun mwy.*

*O, pam na fedraf fod yn llon,*
*A chelu'r dolur tan fy mron?*
*Pwy wyr nad llanciau eto ddaw,*
*Fel cynt i ofyn am fy llaw —*
*Ond os na ddaw fy Alun mwy,*
*Gwell gennyf fi fy serchus glwy.*

*M.E.N.*

Mae'r casgliad cyntaf o farddoniaeth Eifion Wyn *Ieuenctid y Dydd* a gyhoeddwyd yn 1894 yn cynnwys un delyneg i Men sydd fel pe bai yn edrych yn ôl tros flynyddoedd o garwriaeth. Cyfeiria at yr adeg pan nad oeddynt

*Ond bachgen deunaw Menna*
*Dim ond geneth bymtheg oed*

Fel y digwydd dyma'r union wahaniaeth oedran rhwng Eifion Wyn a Mary Newell (a rhyngddo ef ac Annie Jones, a ddaeth yn wraig iddo yn ogystal).

*(I Dudalen 3)*